# CYNNIG TRAFFIG

Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Lawrenny Avenue, Caerdydd) (Strydoedd Ysgol) (Gwahardd Traffig) (Arbrofol) 2023

Ar 23 Awst 2023 gwnaeth Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Adran 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Gorchymyn yn atal unrhyw Gerbyd Modur rhag cyrraedd a gyrru ymlaen Lawrenny Avenue o'i chyffordd â'r pwynt mynediad gorllewinol i ffordd Gwasanaeth Lawrenny Avenue. Dim ond "Yn Ystod y Tymor" rhwng 08:15 a 09:15 a rhwng 14:30 a 15:45 o ddydd Llun i ddydd Gwener (gan gynnwys y ddau ddiwrnod hyn) y bydd y gwaharddiad hwn ar waith. At ddibenion yr hysbysiad hwn a'r Gorchymyn cyfatebol, ystyr "Yn Ystod y Tymor" fydd y Flwyddyn Academaidd (rhwng 1 Medi a 31 Gorffennaf) ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd yn cynnwys gwyliau ysgol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Dyddiadau tymhorau ysgol (caerdydd.gov.uk).

Caniateir esemptiadau ar gyfer cerbydau sy'n arddangos trwydded ddilys gyda chyfeirnod trwydded SZ9 (Sylwch fod unrhyw fangre fusnes, grefyddol neu gymunedol sydd ond yn hygyrch o Lawrenny Avenue yn gymwys i wneud cais am drwyddedau o'r fath).

Gallwch gael rhagor o fanylion am drwyddedau yn www.caerdydd.gov.uk/strydoeddysgol.

Daw'r Gorchymyn Arbrofol i rym ar 4 Medi 2024 a bydd ar waith am 18 mis yn unol ag ac yn amodol ar y darpariaethau a nodir yn Adran 9 Deddf 1984.

Bydd y Cyngor yn ystyried maes o law a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn hwn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a gohebiaeth arall sy'n ymwneud â'r Gorchymyn yn parhau am gyfnod amhenodol gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig a'u cyfeirio at y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol erbyn hanner nos ar 4 Mawrth 2024 (neu drwy e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk). Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae copïau o'r gorchymyn a'r cynlluniau'n dangos lleoliad a natur y cyfyngiadau ar gael ond sylwer, y gallwch ond gael copïau trwy e-bostio cais i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk, trwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy sganio'r cod QR isod.

Gellir gwaredu'r Hysbysiad hwn ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o'ch dewis, boed hynny yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.


Os ydych am herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau sydd ynghlwm wrtho ar y sail nad ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Dyddiad: 25 Awst 2023

Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

Cymraeg English

C2690




Copyright Cardiff County Council, Licence Number AC0000816513

N
W E
S

**Cyngor Caerdydd**

**Cardiff Council**

CARDIFF
CAERDYDD

Canton - Lawrenny Avenue
Strydoedd Ysgol ETRO
Fitzalan High - Ysgol Pwll Coch

PTE/CM/JI/LB/C2690

Graddfa1:2000

Dyddiad : 7/7/2023

Gorchmynion a gynigir

Lawrenny Avenue Strydoedd Ysgol (ETRO SZ9)

Fitzalan High- Ysgol Pwll Coch

Parth Cerddwyr SZ9 Llun-Gwe
8:15am-9:15am a
2:30pm-3:45pm